

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener nesaf, Medi 26.

Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

gronyn.org

Cofiwch bod Gronyn i'w weld unrhyw bryd ar wefan yr Ofalaeth. www.gronyn.org neu gronyn.wordpress.com

Mae'n dda gweld mwy o ddefnydd o'r wefan yn ddiweddar.

Y Goleuad

Fe ddosbarthwyd copïau rhad ac am ddim o'r *Goleuad* yr wythnos diwethaf er mwyn tynnu sylw at y papur. Gwnaed hyn gan y cyhoeddwr y llynedd hefyd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau ei ddarllen os gwelsoch ef. A chofiwch mai bwriad cynnig copi am ddim oedd ennyn awydd mewn rhai i brynu copi bob wythnos. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Gweinidog. Fel y nodwyd yn y rhifyn a rannwyd am ddim, nid papur ar gyfer gweinidogion neu flaenoriaid yn unig yw hwn ond holl aelodau'r eglwys.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 21

10.00 a.m. – Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 28

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Diolchgarwch

Mae'n rhyfedd meddwl ein bod yn nesu at dymor y Diolchgarwch unwaith eto.

Gobeithio gallwn gyhoeddi rhestr o ddyddiadau ac oedfaon y Diolchgarwch yn Gronyn y Sul nesaf.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Medi 22: Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 28: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Medi 26: CIC rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 28: Bydd yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 28: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Medi 19: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Medi 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 605 – Dydd Sul, 21 Medi, 2014

Ian Paisley

Yng nghanol yr holl sylw a roddwyd i Refferendwm Yr Alban cafodd un stori lai o sylw nag y byddai wedi ei chael yn arferol. Wythnos i nos Wener bu farw'r Parchg Ddr Ian Paisley, ond gan fod llygaid pob sylwebydd gwleidyddol ar yr hyn a ddigwyddai yn Yr Alban cymharol ychydig a glywyd am y gŵr a fu'n gymaint rhan o wleidyddiaeth Gogledd Iwerddon ers blynnyddoedd. Ian Paisley oedd y gweinidog a droes yn wleidydd ac a ddaeth yn un o leisiau mwyaf croch yr Unoliaethwyr yno am ddegawdau. Fo oedd y gŵr a glywsom yn taranu yn erbyn Gweriniaethwyr a Phabyddion. Fo oedd y gŵr oedd yn cael ei feio, oherwydd ei areithiau, am lawer o boen Gogledd Iwerddon yn ystod ei blynnyddoedd blin. Fo oedd y gŵr y bu cymaint o Gristnogion yn methu'n glir â'i ddeall oherwydd yr anghysondeb a welai cymaint o bobl rhwng ei ffyddlondeb i Efengyl Gras a Chariad yr Arglwydd Iesu Grist a ffyrnigrwydd ei wrthwynebiad i bawb a phopeth y byddai'n anghytuno â hwy.

Ian Paisley hefyd oedd y gŵr a ddaeth yn Weinidog Cyntaf Llywodraeth Ddatganoledig Gogledd Iwerddon yn 2007, gyda Martin McGuinness yn ddirprwy iddo. Bu Martin McGuinness yn arweinydd o fewn yr IRA, a bu Ian Paisley yn chwythu bygythion yn ei erbyn ac yn ei gasau â chas perffaith. Ond er mawr syndod i bawb, wedi blynnyddoedd o elyniaeth daeth y ddau yn gydweithwyr, a mwy na hynny hyd yn oed, yn gyfeillion a oedd yn parchu ei gilydd ac yn mwynhau hwyl yng

nghwmni ei gilydd. Roedd llawer yn mynnu bod Paisley wedi meddalu a newid ei agwedd at McGuinness a'r gweriniaethwyr am iddo weld cyfle i wneud enw iddo'i hun fel Gweinidog Cyntaf. Ond mae hynny'n annheg â'r dyn gan ei fod wedi llwyddo i gymodi â'i elynion gwleidyddol a chydweithio efo nhw hyd yn oed. Byddai'n llawer gwell pe byddai wedi gallu gwneud hynny flynyddoedd yn gynharach, ond ni ddylai'r ffaith mai yn hwyr y dydd y digwyddodd hyn ein rhwystro rhag cydnabod rhyfeddod y cymod hwn na'n hatal rhag diolch i Dduw am y modd y llwyddodd y ddau i gymodi â'i gilydd a chydweithio'n effeithiol.

Y mae hanes Ian Paisley yn rhybudd ac yn gysur. Mae'n rhybudd i bob Cristion wylio rhag i'w ymddygiad – cyhoeddus neu breifat – fod yn groes i'r hyn y mae'n ei gredu a'i gyhoeddi. Ond mae'n gysur hefyd am ei bod yn ein hatgoffa bod gras Duw yn ei gwneud yn bosibl i elynion gymodi â'i gilydd, faint bynnag y clwyfo y buont yn gyfrifol amdano dros gyfnod hir. Mae rhywbeth annheilwng yn y ffordd yr arhosodd llawer o bobl yn amheus o'r ddau ddyn yn gan wrthod derbyn dilysrwydd eu cymhellion. Rydym eisiau gweld cymod rhwng pobl, ac yr ydym yn aml iawn yn gweddio am gael ei weld. Os felly, fe ddylem fod yn barod i'w gydnabod ac i ddiolch amdano pan welwn y cymod hwnw'n cael ei wireddu a'i weithredu, beth bynnag a fu. Fel arall, waeth heb a sôn am werth cymod o gwbl.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf fi'n arwain yr Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Rhowch wybod i ni os gwyddoch am aelodau o eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty os gwelwch yn dda.

Dymunwn yn dda hefyd i bawb sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd. Mae amryw ohonoch yn gweld colli'r oedfa ac yn amlwg hefyd mae eich cydaelodau yn gweld eich colli.

Penblwydd

Llongyfarchwyd Mr Dafydd Roberts, Stryd Turner, Llanberis y Sul diwethaf ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed. Dydd Mawrth diwethaf oedd y diwrnod mawr. Ond yr hyn na ddywedwyd yn Gronyn oedd bod gwahoddiad i bawb oedd yn yr oedfa yn Capel Coch fore Sul diwethaf i aros am luniaeth ysgafn i ddathlu'r pen blwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n paratoi, a gobeithio'n fawr fod Mr Roberts wedi mwynhau'r cyfan.

Roedd digon o fwyd wedi ei baratoi er mwyn i blant yr Ysgol Sul fod yn rhan o'r dathliad wrth iddyn nhw gyrraedd i'r Ysgol Sul ar ôl y gwasanaeth.

Cymdeithas Undebol

Bydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn ail ddechrau nos yfory, nos Lun, Medi 22, yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

Annette Bryn Parri, Cynefin fydd yn agor y tymor newydd i ni. Cawsom noson o sgws a chân arbennig ganddi y llynedd, ac fe gawn gyngerdd cartrefol o safon uchel eto nos yfory, Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Catherine Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, Llanberis yn Capel Coch ddydd Gwener, Medi 19. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w theulu i gyd. Diolch i Bethan Holding a oedd yn chwarae'r organ yn yr oedfa.

Henaduriaeth arbennig

Cynhaliwyd Henaduriaeth Arbennig yng Nghapel Berea Newydd, Bangor nos Lun diwethaf i gyflwyno Cynllun Strategaeth Diwygiedig Arfon ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Pwyllgor Gofalaeth

Nos Iau, Hydref 2

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 2 i drefnu ar gyfer y drefn newydd o fis Ionawr ymlaen pan fydd yr Ofalaeth yn cael ei hystemyn i gynnwys eglwysi Bethlehem, Talybont a Charmel, Llanllechid.

Gobeithio bydd pob eglwys yn cael ei chynrychioli yn y pwyllgor hwn.

Llanw

Mae gŵyl Gristnogol LLANW wedi dod yn wyl boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi ei chynnal yn Llangrannog a Chei Newydd a Dinbych y Pysgod cyn hyn. Mae trefnwyr LLANW yn cynnal dathliad penwythnos ym mis Medi i roi blas ar yr ŵyl i rai na fu ynddi a chyfle i rai a fu ynddi i ddod at ei gilydd. Cynhelir hwnnw yn Y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26–27. Mae croeso cynnes i unrhyw un i fynd yno. Er ei fod yn cael ei hysbysebu fel penwythnos bydd y rhan fwyaf o bobl mae'n debyg yn mynd yno y dydd Sadwrn yn unig.

'Cyfle i gymdeithasu, i ddyysgu, i addoli ac i gael hwyl. Dewch i gael eich annog a'ch arfogi.' Dyna a ddywedir ar y daflen sy'n tynnu sylw at y penwythnos hwn, 'Aduniad Llanw'.

Y Parchg Hywel Meredydd, gweinidog Capel Cildwrn, Llangefni fydd y siaradwr gwadd.

Mae croeso cynnes i bawb. Mae'r cyfan yn addas ar gyfer pob oed gan fod gweithgareddau arbennig yn cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener yr wythnos hon, Medi 26

Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch

Bydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Panel Diogelwch Cydenwadol i gyflwyno'r gwrslyfrau newydd sydd i'w defnyddio yn yr Ysgol Sul eleni ac egluro'r gofynion newydd o ran diogelwch plant ac oedolion bregus i'r eglwysi.

Ceir cyflwyniad 15 munud gan y Parchg Aled Davies i'r gyfres newydd o werslyfrau ac adnoddau perthnasol eraill ar gyfer Ysgolion Sul a chlybiau plant.

Ac yna ceir cyflwyniad 45 munud gan Mrs Julie Edwards o'r Panel Diogelwch Cydenwadol i'r *Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus* a gyhoeddwyd eleni.

Mae dewis o ddyddiadau. Yr agosaf at om ni yw'r un yng Nghaernarfon wrth gwrs ond nodir y lleoliadau eraill hefyd rhag ofn bod y dyddiadau hynny'n fwy hwylus.

Nos Iau, Medi 25:

Capel y Porth, Porthmadog

Nos Lun, Medi 29:

Capel Lon y Felin, Llangefni

Nos Fawrth, Medi 30:

Coleg y Bala, Y Bala

Nos Fercher, Hydref 1

Capel Salem, Caernarfon

Bydd y cyflwyniad cyntaf am 7.30 o'r gloch, a bydd y cyfarfod yn gorffen am 9.00 o'r gloch.

Mae gwahoddiad arbennig i athrawon Ysgol Sul a swyddogion eglwysi i fynd i'r cyfarfodydd hyn.